



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

#SHWMAERONMENT

**STRATEGAETH BUM
MLYNEDD HYRWYDDO'R
IAITH GYMRAEG AR
GYFER CYNGOR
WRDEISTREF
SIROL MERTHYR**

	Page
ADRAN 1: RHAGAIR	3
ADRAN 2: MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011	5
ADRAN 3: CYFLWYNIAD	6
ADRAN 4: EGWYDDORION ARWEINIOL, GWELEDIGAETH A DEILLIANNAU	8
ADRAN 5: UCHELGEISIAU, GWEITHREDOEDD A MESURAU	11

Yn 2011 cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) ei disodli gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru, mae gan yr iaith Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid yw'n ofynnol i gyrff cyhoeddus mwyach ddatblygu a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg, ond rhaid iddynt gydsynio â chasgliad o Safonau'r Gymraeg yn lle hynny.

Cyflwynodd Gomisiynydd y Gymraeg Hysbysiadau Cydymffurfio i'r holl awdurdodau lleol ar 30 Medi 2015. Fel Cyngor, rydym yn ymdrechu i gydsynio â Safonau'r Gymraeg a ddaeth i rym ar 30 Mawrth 2016 ac rydym yn gwneud pob ymdrech i ymateb iddynt mewn modd cadarnhaol.

Un o'r dyletswyddau a osodir ar y Cyngor gan Safonau 145 a 146 yw'r angen i gynhyrchu Strategaeth Hyrwyddo bum mlynedd, a'i chyhoeddi ar ei wefan, gan adrodd yn ôl amdani ar ddiwedd y pum mlynedd.

Yn ogystal â'n dyletswydd i gydsynio â gofynion y Mesur, mae'r Strategaeth hefyd yn adlewyrchu'r gofynion i hwyluso'r defnydd o'r iaith yn unol â Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru 2012⁹ a'r Strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Y mae hefyd yn adlewyrchu ein hoblygiadau o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ble y nodir mai un o'r nodau yw: "Cymru â diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu". Mae darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn allweddol i hyn, felly ein nod yw parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd da.

Mae'r Strategaeth hon hefyd yn cyfrannu at ofynion canlynol y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Gwellu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni'r Nodau Llesiant a osodir yn y Ddeddf.
- Gwneud i gyrff cyhoeddus ystyried sut maen nhw'n gweithio'n well â phobl a chymunedau ac â'i gilydd yn yr hir dymor a mabwysiadu dulliau gweithredu ataliol a chydweithredol i sicrhau cynaliadwyedd hir dymor.

Gan gyfeirio at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a ddaeth i rym yn 2014, mae'r Ddeddf yn amlygu'r ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Gweinidogion Cymru i hyrwyddo llesiant y rheini sydd ag angen gofal a chefnogaeth arnynt, neu ofalwyr sydd ag angen cefnogaeth arnynt, fel yr ymgorfforir ym Menter Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru "Mwy na Geiriau..."

Mae'r Strategaeth hon hefyd yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru i "alluogi'r iaith Gymraeg i ffynnu" fel yr amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru; Cymwys am Oes 9 Cwricwlwm i Gymru 9 Cwricwlwm am Oes (2015). Cafodd hon ei ysgrifennu er mwyn adlewyrchu'r argymhellion fel y'u gosodwyd yn "Un iaith i Bawb/One language for All" gyda'r ffocws ar yr angen i ddefnyddio Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol fel sail i'r cwricwlwm diwygiedig fel bod yna un continwm ar gyfer dysgu'r iaith Gymraeg gyda disgygliadau clir i ddisgyblion.

Y Cyngorydd Kevin O'Neill
Arweinydd y Cyngor

Gareth Chapman
Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Andrew Barry
Aelod Cabinet dros Lywodraethu,
Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol

Y Cyngorydd Chris Davies
Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Cyngor

Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd hwn yn amlinellu dyletswydd y Cyngor i fodloni Safonau'r Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rhoddodd y Mesur hwn statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg fel na fyddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r cyflwyniad diweddar o Safonau'r Gymraeg wedi ei gynllunio i sicrhau fod y rheini sydd yng Nghymru sydd am fyw eu bywydau yn y Gymraeg yn gallu gwneud hynny drwy osod oblygiad ar awdurdodau lleol a chyrrff eraill y sector cyhoeddus, i gyflenwi eu gwasanaeth yn y Gymraeg.

Fel Cyngor, rydym yn ymdrechu i gydsynio â Safonau'r Gymraeg a ddaeth i rym ar 30 Mawrth 2016 ac rydym yn gwneud pob ymdrech i ymateb iddynt mewn modd cadarnhaol.

Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan:

“Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill):9

- (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a
- (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni)..”

Mae Safon 146 yn datgan ymhellach:

- Bum mlynedd wedi cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid i chi
- (a) asesu i ba raddau y llwyddoch i ddilyn y strategaeth honno a chyrraedd y targed a osodwyd, a
 - (b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:9
 - (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oed y siaradwyr hynny;
 - (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd ar y Gymraeg.

Bore da – shwmae?

Pan fydd Cymru'n chwarae rygbi, mae llawer ohonom yn teimlo bod angen i ni uniaethu â'r tîm neu'r wlad mewn rhyw ffordd. Bydd llawer ohonom yn gwisgo crys coch, tra bydd eraill yn gwisgo sgarff neu het â lliwiau Cymru arnynt. Bydd rhai ohonom yn newid ein hunaniaeth cyfryngau cymdeithasol i adlewyrchu ein cefnogaeth i'n tîm, nifer yn canu'r anthem, ac eraill yn prynu bwyd Cymreig i'w fwyta ar ddiwrnod gêm fawr. Mae rhai yn canu emynau, eraill yn ymuno â'r llafarganu yn y gêm, y dafarn neu'r clwb neu hyd yn oed yn ein cartref yn y llofa. Mae cyflawni rhywbeth sy'n ein gosod wrth ochr ein hunaniaeth genedlaethol yn rhywbeth a ddaw'n naturiol ac yn ddigymell i'r rhan fwyaf ohonom.

Bellach, mae'n rhaid i'r tîm wisgo'r crysau, disgwylir iddynt o leiaf gydnabod yr anthem os nad morio'i chanu, maen nhw'n derbyn cap i ddynodi cael eu dethol dros eu gwlad, ac mae disgwyl iddynt ddilyn ymddygiad sydd wedi ei ddiffinio'n fanwl iawn o ran sut maen nhw'n hyfforddi a sut maen nhw'n byw wrth i'r gêm agosáu a hyd yn oed ar ei hôl.

Wrth ystyried y Gymraeg, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod llawer ohonom yn "y tîm" – mae yna bethau penodol sy'n rhaid i ni gydsynio â nhw os ydym am berfformio'n gywir. Fodd bynnag, gallwn ni i gyd fod yn gefnogwyr i'r tîm os ydym yn dymuno hynny. Does dim rhaid i ni wisgo crys, does dim rhaid i ni ganu'r anthemau, a does dim rhaid i ni fwyta bara lawr i gefnogi'r tîm chwaith. Mae yna rywbeth syml iawn y gallwn ei wneud ar unwaith, nad yw'n costio dim i ni, i fod yn rhan o'r tîm – gallwn ddweud "bore da" a "shwmae" wrth ein cydweithwyr wrth gyrraedd y swyddfa yn y bore. Gallwn ddweud "Diolch" pan fydd rhywun yn gwneud paned o goffi i ni neu'n cynnig siocled i ni, a gallwn ddweud "Nos da" wrth ymadael â'r swyddfa gyda'r nos. Yna o dipyn i beth, os ydyn ni am ychwanegu "wela'i di fory" at hynna, yna gorau oll. Fodd bynnag, does dim rhaid i ni. Dyna bleser y Gymraeg – does dim rhaid i ni gael unrhyw bwerau arbennig i'w defnyddio, does dim rhaid i ni fod yn gyfoethog i fod yn rhan ohoni a does dim rhaid i ni geisio cael caniatâd oddi wrth unrhyw un cyn i ni ei siarad hi – mae hi'n perthyn yn gyfartal i bob un ohonom, a gallwn ddefnyddio ein siâr ohoni pa bynnag bryd y mynnwn. Rhowch gynnig arni nawr – daliwch lygad cydweithiwr, cyfaill neu aelod o'r teulu a holi "shwmae?" iddo fe neu hi...

A fydd hyn yn ein gwneud ni'n gyfoethocach? Na fydd, nid yn yr ystyr faterol. Ond mewn byd sy'n fythol homogeeiddio, mae'n ein galluogi ni i gael yr ychydig o hunaniaeth hwnnw â'n cyfeillion, teulu a chymdogion. Mae'n fodd o'n hatgoffa o bwy ydyn ni, ble yr ydyn ni'n byw a pham ein bod yn ymfalchïo yn hynny. Nid rhywbeth i'w wneud 9 gwaith y flwyddyn yn unig ydyw (neu ychydig yn fwy yn ystod blwyddyn Cwpan y Byd), mae'n rhywbeth y gallwn ei wneud 365 diwrnod y flwyddyn, ac unwaith yn rhagor pan fydd hi'n Chwefror 29ain.

Rhaid i bob adeilad gael ei adeiladu o'r gwaelod i fyny – ydy, mae'n ystrydeb, ond os yw adeilad am bara, rhaid iddo fod ar seiliau cadarn. Wrth i bob un wan jac ohonom normaleiddio'r Gymraeg, gan hawlio'n cyfran o'r hyn sydd eisoes yn berchen i ni, rydym yn creu sail gadarn ar gyfer twf yr iaith oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol. Wrth ddweud "shwmae" wrth ein gilydd, rydym yn cyfoethogi ein hunaniaeth ein hunain, ac

rydym yn cyfoethogi'r amgylchedd o'n cwmpas – ac yn rhoi'r seiliau mwyaf cadarn y gall cenedlaethau'r dyfodol ffynnu arnynt.

Ni fydd taflu arian at bethau, creu atebion byr dymor a gweld un fenter ddeallus ar ôl y llall yn ffwndro yn sgil diffyg cynaliadwyedd a chadernid yn y cymunedau y'u bwriadwyd ar eu cyfer, yn newid unrhyw beth dros yr hir dymor. Yr hyn yr ydym am ei wneud ym Merthyr Tudful yw arwain y ffordd ar gyfer gweddill Cymru drwy gymryd yr hyn sy'n eiddo i ni beth bynnag – ein hiaith – a'i gwneud yn rhan o'n hunaniaeth o ddydd i ddydd.

Mae gan Ferthyr Tudful hanes balch o newid y byd er gwell. Merthyr oedd lle cyntaf i siarad allan yn erbyn anghydraddoldeb, a'r lle cyntaf i ddangos i weddill y byd sut y dylid cyflawni pethau da yn y ffordd gywir. Nid oes un man sydd wedi ei gyfarparu'n well na Merthyr Tudful, yn hanesyddol nac yn ddiwylliannol i newid y dyfodol – dyfodol sy'n dechrau bob dydd gyda ni oll yn dweud "Bore da 9 shwmae" wrth ein gilydd, gan greu "Shwmaeronment" ledled Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

EGWYDDORION ARWEINIOL, GWELEDIGAETH A DEILLIANNAU

Egwyddorion Arweiniol

Mae'r Gymraeg yn elfen allweddol o agenda Cydraddoldeb y Cyngor. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy ddilyn yr Egwyddorion Arweiniol canlynol:

- Mae gan unigolion yr hawl i ddelio â ni yn y Gymraeg.
- Rhaid gosod y Gymraeg i'w darllen yn gyntaf (ar y chwith neu uwch ben y Saesneg).
- Parchu hawliau iaith y staff.
- Mae ansawdd y gwasanaeth ac agwedd gadarnhaol yn bwysig.
- Rhaid i ni gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg er mwyn rhoi dewis o iaith.

Gweledigaeth yr Iaith Gymraeg ar gyfer Merthyr Tudful

Bydd yr Egwyddorion Arweiniol hyn yn cefnogi'r Cyngor o ran cyflenwi Gweledigaeth yr Iaith Gymraeg ar gyfer Merthyr Tudful:

“Lle sydd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Caiff hyn ei gyflawni drwy alluogi ac annog:

- Y ddarpariaeth eang o addysg Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn y cartref ac wrth chwarae.
- Y cysyniad o ieithoedd fel sgiliau bywyd, sy'n cyfoethogi bywydau'r rheini sy'n eu defnyddio nhw.
- Pobl ledled y Fwrdeistref Sirol i deimlo balchder yn eu hiaith gan ei siarad yn hyderus.

Mae'r rhain yn ddelfrydau sy'n fwriadol ymestynnol – ni fyddant yn cael eu cyflawni dros nos, y mae'n weledigaeth gennym i annog newid diwylliannol yn y ffordd y canfyddir dwy iaith Cymru yn y Fwrdeistref Sirol hon. Rydym am wneud gwahaniaeth.”

Bydd y Cyngor yn arsylwi ar yr Egwyddorion Arweiniol hyn gan weithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaeth, comisiynydd a chyflogwr sy'n gweithio mewn partneriaeth drwy, ac â'n rhanddeiliaid yn y Fwrdeistref Sirol.

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

Caiff y Weledigaeth hon ei chyflawni drwy Strategaeth Hyrwyddo Iaith Gymraeg y Cyngor, a fydd yn ceisio cyflenwi'r **Deilliannau** canlynol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

1. Fel isafswm targed, cynnal y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, ond mae angen i ni gynyddu % y siaradwyr Cymraeg gan 0.3% y flwyddyn i fodloni'r targed cenedlaethol.

Er mwyn cyflawni targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, byddai angen dyblu canran y siaradwyr Cymraeg; hynny yw cynnydd o 8.9% i 17.8% ym Merthyr Tudful. Er mwyn cyflawni hyn erbyn 2050, byddai cynnydd o 0.3% y flwyddyn yn ofynnol. (Mae hyn yn gyfartal â 177 yn ychwanegol y flwyddyn o bobl ym Merthyr Tudful yn gallu siarad Cymraeg yn seiliedig ar y boblogaeth bresennol o 59,000).

Y prif feysydd y byddai'r ffigurau heriol hyn yn gallu cael eu cyflawni fyddai drwy:

- a) Hyrwyddo Ti a Fi (grwpiau rhiant a phlentyn bach) a Grwpiau Meithrin (dosbarthiadau cyn9ysgol).
 - b) Annog rhagor o rieni i anfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg.
 - c) Annog a chefnogi darpariaeth o ran cyfleoedd dysgu ôl916 drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - d) Annog oedolion i ddysgu'r Gymraeg.
 - e) Annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
2. Normaleiddio'r Gymraeg yn y modd yr ydym yn mynd o gwmpas ein bywydau bob dydd ym Merthyr Tudful:
 - a) Gwneud dwyieithrwydd yn olygfa ac yn sain gyfarwydd ar strydoedd Merthyr Tudful.
 - b) Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg lafar ledled y Fwrdeistref Sirol.
 3. Annog ein pobl ifanc i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg sy'n cael ei dysgu iddynt yn ein hysgolion a rhoi rhagor o gyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg.
 4. Bod rhieni a phlant yn gwybod ac yn deall am fanteision economaidd ac iechyd o fod yn ddwyieithog.
 5. Annog a chefnogi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Wrth roi sylw i'r heriau a osodwyd gan y Safonau sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mewn modd creadigol, cadarnhaol a thrylwyr.
2. Gweithio mewn partneriaeth drwy, ac â rhanddeilaid eraill sy'n weithgar yn y Fwrdeistref Sirol, bydd y rhain yn cynnwys, ond ddim wedi eu cyfyngu i, Goleg Merthyr, Menter Merthyr/Canolfan Soar, y Fforwm Sirol, Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg, Cymraeg i Oedolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Mudiad Meithrin, RhAG, Urdd Gobaith Cymru, Colegau Cymru a Grŵp Deddf.
3. Wrth alinio ein gweithredoedd gyda 4 maes y datblygiad strategol a ddynodwyd gan Strategaeth yr Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru 2012917: Iaith Fyw: Iaith Byw. Sef:

- Maes Strategol 1: Y Teulu.
- Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc.
- Maes Strategol 3: Y Gymuned.
- Maes Strategol 4: Y Gweithle.

Maes Strategol 1: Y Teulu**Ein Huchelgais yw bod:**

1. Yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio gan deuluoedd ledled y Fwrdeistref Sirol ar sail fwy rheolaidd.
2. Teuluoedd yn ystyried bod y Gymraeg yr un mor bwysig i'w hunaniaeth fel teulu ag yw byw ym Merthyr Tudful a byw yng Nghymru.
3. Addysg cyfrwng Cymraeg yn dyfod yn ystyriaeth i holl deuluoedd ledled y Fwrdeistref Sirol.

Gweithredu i gyflenwi'r Uchelgais hon:

1. Cyflenwi negeseuon parhaus ar draws y gymuned er mwyn hyrwyddo manteision trosglwyddo'r Gymraeg i'r teulu, a rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc i ddyfod yn oedolion dwyieithog hyderus.
2. Annog a hyrwyddo'r cyfleoedd i rieni ddatblygu eu sgiliau Cymraeg i gynorthwyo'u plant i gaffael ac ennill hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.
3. Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd i sicrhau fod yna lawer o gyfleoedd i deuluoedd eu mynychu ble y gallant ddefnyddio'r iaith ynghyd.
4. Hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg cyn ysgol i holl gymunedau'r Fwrdeistref Sirol.
5. Hyrwyddo sefydliadau fel Menter Merthyr/Canolfan Soar, Mudiad Meithrin a'r Urdd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i godi ymwybyddiaeth o'u gweithgareddau Cymraeg eu hiaith i'r teulu.
6. Gweithio'n agos at, a thrwy'r Fforwm Iaith Sirol i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y teulu,
7. Creu cyfleoedd Chwaraeon, Hamdden a Diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg, darparu cyfleoedd i deuluoedd gyfranogi a chymdeithasu yn Gymraeg o gwmpas y gweithgareddau hyn – a chlymu'r gweithgareddau at yr ail bwynt uchod – cynyddu cyfleoedd i rieni i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

Mesurau Llwyddiant:

1. Nifer a % o Deuluoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith y teulu (Ffynhonnell: Arolwg Rhieni).

2. Nifer a % o blant mewn addysg Feithrin a Chynradd Cyfrwng Cymraeg (Ffynhonnell: Adran Addysg).
3. Nifer o Deuluoedd sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau Cymraeg eu hiaith i'r teulu (Ffynhonnell: Menter Merthyr/Canolfan Soar a'r Urdd).
4. Gweithgareddau Cymraeg eu Hiaith i'r Teulu (Ffynhonnell: Menter Merthyr/Canolfan Soar a'r Urdd)
5. Rhieni'n dysgu'r Gymraeg (Ffynhonnell: Cymraeg i Oedolion).

Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc

Ein Huchelgais yw bod:

1. Yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio fwy gan bobl ifanc ledled y Fwrdeistref Sirol – yn enwedig, yn ychwanegol at amgylcheddau'r ysgol a'r teulu.
2. Pobl ifanc yn credu fod yr iaith Gymraeg yn rhan bwysig o'u hunaniaeth eu hunain.
3. Mae gan bobl ifanc ddealltwriaeth well o sut y gall yr iaith Gymraeg wella eu cyfleoedd Addysg Bellach / Uwch a chyfleoedd Cyflogaeth (clymu i mewn yn benodol â Meysydd 4 a 6 isod).

Gweithredu i gyflenwi'r Uchelgais hon:

1. Hyrwyddo'r ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd all9gwrwclaid cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc.
2. Annog a hyrwyddo datblygiad cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg i gysylltu â'r iaith Gymraeg drwy brofiadau cadarnhaol.
3. Hyrwyddo manteision addysg Cyfrwng Cymraeg.
4. Gweithio'n agos â'r sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach i sefydlu gwaelodlinau ac annog gwella cyfraddau cynnydd myfyrwyr i addysg cyfrwng Cymraeg ôl916, ac annog cynnig cyfleoedd Addysg Cyfrwng Cymraeg Ôl916.
5. Gweithio'n agos at, a thrwy'r Fforwm Iaith Sirol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc.
6. Hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddi a chyflogaeth.

Mesurau o Lwyddiant:

1. Nifer a % o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol (Ffynhonnell: Cyfrifiad).
2. Nifer a % o bobl ifanc sy'n cwblhau eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (Ffynhonnell: Adran Addysg).

3. Niferoedd o bobl ifanc sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth iddynt gael mynediad at fyd cyflogaeth (Ffynhonnell: Partneriaid Sector Preifat).
4. Nifer o swyddi lefel mynediad sy'n hysbysebu am yr angen am sgiliau iaith Gymraeg (Ffynhonnell: Ymchwil mewnol).
5. Cydnabyddiaeth fod y Gymraeg yn rhan o hunaniaeth pobl ifanc ohonynt eu hunain (Ffynhonnell: Arolwg Ysgol).

Maes Strategol 3: Y Gymuned

Ein Huchelgais yw:

1. Bod y Gymraeg yn dyfod i gael ei gweld a'i chlywed ledled y Fwrdeistref Sirol fel rhan arferol o fywyd bob dydd.
2. Bod diwylliant yn y siopau, strydoedd canolfannau hamdden a lleoedd cyhoeddus eraill ble mae pobl yn cyfarch ei gilydd (hyd yn oed ymhlith pobl nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg) gydag idiomau Cymraeg fel "bore da" a "Shwmae."
3. Bydd rhagor o weithgareddau cymunedol dwyieithog yn datblygu a chaiff dwyieithrwydd ei dderbyn fel peth arferol yn y gymuned drwyddi draw.
4. Bod safle ac amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned yn cael eu cryfhau a'u cefnogi.

Gweithredoedd i gyflawni'r Uchelgais hon:

1. Hyrwyddo'r Gymraeg fel modd unigryw o werthu Merthyr Tudful fel tref wedi ei thrwytho yn hanes Cymru – gyda llawer o hwnnw wedi digwydd yn y Gymraeg.
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob digwyddiad proffil uchel a chyhoeddus y mae'r Fwrdeistref Sirol yn eu cynnal, cefnogi digwyddiadau cymunedol presennol sy'n Gymraeg eu hiaith a rhannu arferion da.
3. Hyrwyddo a datblygu amgylcheddau ble gellir siarad y ddwy iaith yn gyfartal a'u dathlu gan bob diwylliant a chefnidir gan hyrwyddo perchnogaeth o'r iaith a chydlyniant cymunedol.
4. Cyflwyno'r Gymraeg i gymunedau newydd a rhai sy'n dod i'r golwg fel modd o hyrwyddo diwylliant Cymru ac annog dysgu'r Gymraeg ac addysgu cyfrwng Gymraeg.
5. Gweithio'n agos at, a thrwy'r Fforwm Iaith Sirol i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y teulu.
6. Cefnogi Canolfan Soar – Canolfan Ddiwylliannol Gymraeg Merthyr Tudful i gynyddu digwyddiadau yn y gymuned a datblygu cyfleoedd i arddangos hanes a diwylliant helaeth yr iaith Gymraeg ym Merthyr Tudful.

Mesurau o Lwyddiant:

1. Nifer a % o bobl sy'n siarad Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol (Ffynhonnell: Cyfrifiad).
2. Tystiolaeth o'r Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed mewn lleoedd cyhoeddus (angen sefydlu gwaelodlinau a methodolegau).
3. Cyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol yn ddwyieithog (Ffynhonnell: Fforwm Iaith Sirol)

Maes Strategol 4: Y Gweithle

Ein Huchelgais yw:

1. Bod rhagor o weithleoedd ym Merthyr Tudful yn dyfod yn gynyddol ddwyieithog.
2. Bod rhagor o gyflogwyr yn hysbysebu am siaradwyr Cymraeg.
3. Bod staff yn cael eu cefnogi i wella a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg.
4. Bod yna gyswllt clir yn cael ei greu rhwng addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
5. Bod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn fwy eang yng ngweithleoedd Merthyr Tudful.

Gweithredoedd i gyflawni'r Uchelgais hon:

1. Cynyddu cydnabyddiaeth o'r iaith Gymraeg fel sgil gwerthfawr iawn yn y gweithle gan ddefnyddio gwahanol fentrau ac ymgyrchoedd.
2. Cefnogi staff dwyieithog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.
3. Meithrin "diwylliant o ddysgu", gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel sbardun.
4. Sicrhau fod staff yn y Fwrdeistref Sirol yn gallu cael mynediad at hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.
5. Cynyddu nifer/canran y siaradwyr Cymraeg yn y gweithle ledled y Fwrdeistref Sirol.
6. Gweithio'n agos at a thrwy'r Fforwm Iaith Sirol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
7. Galluogi a chefnogi staff rhugl, yn ogystal â staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, er enghraifft drwy ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
8. Estyn cyfleoedd hyfforddiant yr iaith Gymraeg i'r holl staff ledled y Fwrdeistref Sirol 9 wyneb yn wyneb ac ar9lein.

Mesurau o Lwyddiant:

1. Mae tystiolaeth o'r Gymraeg wedi ei gweld a'i chlywed mewn mannau cyhoeddus (angen sefydlu gwaelodlinau a methodolegau).
2. Cyflogwyr yn cyflawni archwiliadau sgiliau iaith 9 a mesur niferoedd gyda'r mecanwaith hwn, os yw'n ddichonadwy (Ffynhonnell: Partneriaid y Sector Preifat).
3. Mae lleoedd gwaith ym Merthyr Tudful yn ddwyieithog – mae staff yn defnyddio'r Gymraeg (Ffynhonnell: Partneriaid Sector Preifat).
4. Cyflogwyr yn hysbysebu am siaradwyr Cymraeg / Cynnydd yn y nifer o swyddi a hysbysebwyd ble y mae angen y Gymraeg neu ble y caiff ei ffafrio (Partneriaid Sector Preifat).
5. Mynediad at gyrsiau hyfforddiant sgiliau iaith at ddefnydd cyflogeion – wyneb yn wyneb ac ar9lein (Cymraeg i Oedolion).

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd a bydd angen ei datblygu.